OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 2478 (Cy.270)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*25 Medi 2012*
Yn dod i rym - -	*1 Hydref 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 23 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Diwygio) 2012.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2012.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(a) mae "etholaeth Cynulliad" ("*Assembly constituency*") i'w dehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;

(b) mae "rhanbarth etholiadol Cynulliad" ("*Assembly electoral region*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Diwygiadau i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011

3.—(1) Mae Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) (Cymru) 2011 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn erthyglau 4, 5(1), 6(1), 7, 8(1) a 9(1) ac ym mhenawdau erthyglau 5, 6, 8 a 9 ac Atodlen 2, hepgorer y geiriau "ac a gynhelir ar yr un diwrnod â'r Refferendwm Pleidlais Amgen".

(**1**) O.S. 2007/236.
(**2**) Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi trosglwyddwyd pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

(3) Yn lle Atodlen 1, rhodder yr Atodlen a ganlyn—

"ATODLEN 1 Erthyglau 4, 5(1) a 6(1)

Y cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy a'r cyfansymiau mwyaf am wasanaethau ac am dreuliau sy'n adenilladwy mewn etholiad etholaeth Cynulliad a ymleddir

1) Etholaeth	2) Cyfanswm adenilladwy mwyaf am wasanaethau	3) Cyfanswm adenilladwy mwyaf am dreuliau	4) Cyfanswm cyffredinol mwyaf sy'n adenilladwy
Aberafan	**£4,730**	**£151,170**	**£155,900**
Aberconwy	**£4,730**	**£105,358**	**£110,088**
Alun a Glannau Dyfrdwy	**£4,730**	**£124,358**	**£129,088**
Arfon	**£4,730**	**£107,069**	**£111,799**
Blaenau Gwent	**£4,730**	**£161,967**	**£166,697**
Bro Morgannwg	**£4,730**	**£192,425**	**£197,155**
Brycheiniog a Sir Faesyfed	**£4,730**	**£177,443**	**£182,173**
Caerffili	**£4,730**	**£160,424**	**£165,154**
Canol Caerdydd	**£4,730**	**£132,301**	**£137,031**
Castell-nedd	**£4,730**	**£169,780**	**£174,510**
Ceredigion	**£4,730**	**£153,514**	**£158,244**
Cwm Cynon	**£4,730**	**£121,686**	**£126,416**
De Caerdydd a Phenarth	**£4,730**	**£183,660**	**£188,390**
De Clwyd	**£4,730**	**£146,245**	**£150,975**
Delyn	**£4,730**	**£129,994**	**£134,724**
Dwyfor Meirionnydd	**£4,730**	**£152,209**	**£156,939**
Dwyrain Abertawe	**£4,730**	**£142,418**	**£147,148**
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	**£4,730**	**£177,265**	**£181,995**
Dwyrain Casnewydd	**£4,730**	**£130,047**	**£134,777**
Dyffryn Clwyd	**£4,730**	**£117,780**	**£122,510**
Gogledd Caerdydd	**£4,730**	**£165,133**	**£169,863**
Gorllewin Abertawe	**£4,730**	**£136,341**	**£141,071**
Gorllewin Caerdydd	**£4,730**	**£151,200**	**£155,930**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	**£4,730**	**£161,498**	**£166,228**
Gorllewin Casnewydd	**£4,730**	**£149,302**	**£154,032**
Gorllewin Clwyd	**£4,730**	**£139,326**	**£144,056**